# Ein cynllun corfforaethol –

# ‘Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda’n Gilydd’

# Datganiadau effaith a dangosyddion strategol drafft

## *(Cynnyrch drafft i'w brofi drwy 2024-25)*

Mae ein cynllun corfforaethol hyd at 2030, *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd,* yn cyflwyno ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion llesiant hyd at 2030.

Yn y cynllun, gwnaethom ymrwymo i gryfhau ein fframwaith rheoli perfformiad, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro cyflawniad y cynllun corfforaethol yn effeithiol. Rydym wedi creu fframwaith rheoli perfformiad sy'n monitro cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant yn 2030 a thu hwnt, gan ddangos hefyd yr hyn sy'n digwydd yn ein busnes o ddydd i ddydd. Mae sicrhau'r aliniad hwn wedi bod yn ganolog i'n dull gweithredu, fel y gallwn ddangos cynnydd ac adrodd y stori dros oes y cynllun a thu hwnt.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'n cynllun corfforaethol, ac mae mewn pum adran:

- Mae ***Adran 1*** yn cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad CNC
- Mae ***Adran 2*** yn canolbwyntio ar adrodd ar berfformiad strategol a'r diffiniad o ddatganiadau effaith a dangosyddion strategol
- Mae ***Adran 3*** yn cyflwyno'r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol drafft arfaethedig
- Mae ***Adran 4*** yn cyflwyno'r broses adrodd a monitro ar gyfer y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol
- Mae ***Adran 5*** yn rhoi naratif ar gyfer pob dangosydd strategol, gan gynnwys disgrifiad o'r metrig, y llinell sylfaen a'r ffynonellau data.

Mae dau atodiad technegol yn egluro’r fethodoleg yn fanylach (Atodiad 1), ac yn mapio'r camau i'w cymryd i'r dangosyddion strategol (Atodiad 2).

DRAFT


## Adran 1: Fframwaith rheoli perfformiad

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn egluro ein cyfeiriad hyd at 2030 ac yn diffinio'r llwybr hyd at 2050. Mae ein tri amcan llesiant yn dangos ein cyfraniad at y nodau llesiant o ystyried ein cylch gwaith a'n dulliau a’n galluoedd penodol. Rydym yn cydnabod y bydd ein gwaith dros natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pobl. Mae'r manteision ehangach sy'n deillio o'n gwaith i’w gweld yn y datganiad llesiant.

Mae ein hamcanion llesiant yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ddisgrifio'r newid rydym am ei weld ar gyfer natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd erbyn 2030. Bydd ein dylanwad yn mynd ymhellach na hyn, gan y bydd gweithredu dros natur, yr hinsawdd a llygredd yn gwireddu manteision pellach sylweddol i lesiant pobl.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi cydnabod bod angen i'n fframwaith rheoli perfformiad gipio manteision lluosog yr hyn a wnawn, gan ddefnyddio cyfuniad o ddangosyddion meintiol ac ansoddol, ynghyd â naratifau ategol i ddarparu persbectif integredig o effeithiau a manteision ein gwaith. Ein nod yw cadw pethau'n syml a defnyddio dulliau monitro perfformiad i adrodd ein stori, gan gydnabod ar yr un pryd gyfraniadau'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw a nodi'r pethau hynny sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

### *Diagram 1: Rhyngwyneb rhwng cynllunio strategol a chyflawni gweithredol*




Rydym wedi creu ein fframwaith rheoli perfformiad i integreiddio'r strategol a'r gweithredol, gan ddefnyddio gwybodaeth fwy manwl a gronynnog wrth i ni symud ymlaen i ddeall y ffactorau sy'n sbarduno perfformiad:

***Strategol*** - yn canolbwyntio ar y tymor hir hyd at 2030 a thu hwnt. Fe'i defnyddir i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant

***Gweithredol*** – yn canolbwyntio ar y tymor byr i ganolig hyd at 2030. Defnyddir cynllunio aml-flwyddyn i fonitro ac adrodd ar gynnydd o ran sicrhau canlyniadau'r camau i'w cymryd. Bydd dilyniannu yn llywio blaenoriaethu yn y cynllun busnes blynyddol.

- ***Cynllun Busnes Blynyddol*** – yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau blynyddol tymor byr. Fe'i defnyddir i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni ymrwymiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â chamau wedi'u dilyniannu i gymryd blaenoriaethau o'r cynllun aml-flwyddyn a dyraniad y gyllideb flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu llinell glir o'r cynllun corfforaethol i gynlluniau adrannol, tîm ac unigol.

DRAFT

## Adran 2: Adrodd ar berfformiad strategol – diffiniad o effeithiau a dangosyddion strategol

Er mwyn darparu persbectif integredig ar berfformiad strategol, rydym yn defnyddio datganiadau effaith a dangosyddion strategol gyda'i gilydd. Mae'r rhain wedi'u cynllunio'n ofalus i osgoi seilos swyddogaethol ac i hwyluso cysylltiadau wrth i ni ymdrechu i wneud y mwyaf o fanteision ein gwaith ar natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd er lles pobl.

Mae'r datganiadau effaith o dan yr amcanion llesiant ac yn diffinio uchelgais yr hyn rydym am ei weld erbyn 2030 a thu hwnt - y 'gyrchfan' neu'r 'nod'. Maent yn rhoi disgrifiad manwl o sut beth yw llwyddiant. Mae'r datganiadau effaith yn edrych tuag allan ac yn cydnabod y bydd angen gweithredu ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wireddu newid.

Mae'r dangosyddion strategol yn canolbwyntio ar y pethau hynny y gall CNC ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt, gan ddefnyddio ei ysgogiadau a'i ddulliau, ac maent yn uchelgeisiol ac ymestynnol yn fwriadol. Rydym wedi dewis dangosyddion lle gallwn fonitro cynnydd dros amser, gan olrhain cynnydd yn erbyn y pethau sydd angen eu newid erbyn 2030 (y llwybrau mae angen i ni eu newid). Rydym wedi dewis dangosyddion strategol sy'n darparu asesiad integredig o gynnydd, gan baentio darlun o'r cynllun corfforaethol yn ei gyfanrwydd. Mae pob un wedi'i greu ar lefel uchel i 'dynnu' data arall a dylent fod yn fesuradwy ac yn dryloyw. Mae pob dangosydd strategol yn cyfrannu at sawl datganiad effaith sy'n amlygu'r ymagwedd drawsbynciol a chyfannol sydd gennym at fonitro ac adrodd.

Mae'r cyfuniad o effeithiau; dangosyddion meintiol ac ansoddol; a naratif ategol yn darparu persbectif strategol o gynnydd tuag at ein hamcanion llesiant a'r manteision lluosog sy'n deillio o'n gwaith. Bydd y tair rhan yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd i adrodd y stori gyflawn.

*(Gellir gweld methodoleg sut y gwnaethom ddewis yr effeithiau a'r dangosyddion yn Atodiad 1)*

## Adran 3: Datganiadau effaith a dangosyddion strategol drafft

Ni all CNC fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd ar ei ben ei hun. Ein nod yw galluogi a grymuso eraill i weithredu gyda ni. Er mwyn asesu a yw'r gweithredu ar y cyd hwn ar y trywydd iawn erbyn 2030, rydym wedi nodi chwe datganiad effaith i adlewyrchu'r newid rydym am ei weld:

**Effaith 1:** Erbyn 2030: bod dirywiad bioamrywiaeth wedi'i atal; bod rheoleiddio effeithiol, adfer cynefinoedd ac atebion ar sail natur yn cyfrannu at ecosystemau sy'n gynyddol gydnerth gan alluogi addasu i newid, a bod o fudd i lesiant pobl.

**Effaith 2:** Erbyn 2030: bod gweithredu parhaus ar achosion, risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod natur a phobl yn cael eu galluogi a'u grymuso i addasu, gan liniaru'r effeithiau ar lesiant pobl.

**Effaith 3:** Erbyn 2030: bod llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf drwy ddiwygio deddfwriaethol a rheoleiddio effeithiol, gan leihau niwed i fioamrywiaeth a llesiant pobl, a chan ysgogi rheoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

DRAFT

**Effaith 4:** Erbyn 2030: bod mwy o weithredu ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol yn sicrhau'r buddion mwyaf o ran natur, hinsawdd a llygredd, ac yn lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol.

**Effaith 5:** Erbyn 2030: bod gweithredu ar y cyd parhaus yn golygu bod unigolion a sefydliadau'n gwneud penderfyniadau integredig i fynd i'r afael â’r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

**Effaith 6:** Erbyn 2030: bod cyflawni ein gwerthoedd a'n hymddygiadau yn gyson yn CNC yn golygu bod cydweithwyr, partneriaid a chymunedau’n cael eu galluogi a'u grymuso i arloesi a chyflymu camau gweithredu.

Er mwyn olrhain cynnydd o ran cyflawni'r effeithiau hyn ac i dynnu sylw at ble mae gan CNC y dylanwad mwyaf, rydym wedi dewis deuddeg dangosydd strategol:

**DS 1:** Cynyddu cyfran yr ecosystemau sy'n cael eu diffinio fel rhai gwydn

**DS 2:** Cynyddu cyfradd adfer cynefinoedd

**DS 3:** Cynyddu integreiddio gweithgareddau sy'n cefnogi adferiad natur yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru

**DS 4:** Lleihau cyfradd llygredd ar dir a llygredd sy'n mynd i mewn i gyrff dŵr

**DS 5:** Lleihau cyfradd llygredd i’r aer o ffynonellau diwydiannol ac anniwydiannol

**DS 6:** Lleihau cyfradd allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu cyfradd atafaelu cynaliadwy

**DS 7:** Cynyddu cyfran y boblogaeth sydd â mynediad at fannau gwyrdd neu las o ansawdd uchel, ac sy'n eu defnyddio'n gynaliadwy

**DS 8:** Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn lleoedd a fydd yn parhau i gefnogi a chyfrannu at eu hiechyd a'u llesiant mewn hinsawdd sy'n newid

**DS 9:** Cynyddu effaith dulliau partneriaeth sy'n darparu manteision lluosog ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd

**DS 10:** Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n gweithredu i liniaru ac addasu i'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd

**DS 11:** Cynyddu cyfran y sefydliadau a'r busnesau sy'n gweithredu i liniaru ac addasu i'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd

**DS 12:** Cynyddu cyfran y cydweithwyr yn CNC sy'n teimlo eu bod yn ymgysylltiedig, ac yn cael eu galluogi a'u grymuso

# Adran 4: Defnyddio'r effeithiau a'r dangosyddion strategol i fonitro ac adrodd ar gynnydd

## Profi ac adolygu

Bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol yn cael eu profi hyd at drydydd chwarter 2024/25 er mwyn galluogi:

- ymgysylltu â phartneriaid i archwilio cyfleoedd i fireinio o ystyried eu dealltwriaeth a data, gan feithrin dull "Tîm Cymru" o fonitro ac adrodd ar berfformiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd

- datblygu'r agenda ddatblygu, lle rydym wedi nodi bylchau yn y data sydd ar gael a/neu'r methodolegau y mae angen mynd i'r afael â nhw i baratoi metrigau priodol sy'n cyd-fynd â dangosyddion strategol penodol
- defnyddio'r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol mewn amser real i fframio a llunio trafodaethau strategol yn y Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n perfformiad gweithredol ar gyfer 2024/25.

Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cyfnod profi hwn, bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol yn cael eu cwblhau yn ystod hydref 2024, gydag unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC i'w cymeradwyo. Wedi hynny, y bwriad yw y byddant yn aros yn sefydlog hyd at 2030.

## Perchnogaeth ac atebolrwydd

Rhaid ystyried y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol fel pecyn integredig. Mae'r rhain wedi'u creu i osgoi seilos swyddogaethol ac i hwyluso cysylltiadau wrth i ni ymdrechu i wneud y mwyaf o'n gwaith ar gyfer natur a phobl. Ni fydd unrhyw un tîm nac adran yn gyfrifol am ddatganiad effaith neu ddangosydd strategol unigol. Byddant yn eiddo ar y cyd i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC.

Mae'r Tîm Gweithredol yn darparu arweinyddiaeth weladwy ac yn hyrwyddo'r amcanion llesiant. Mae pob amcan llesiant wedi'i neilltuo i aelod o'r Tîm Gweithredol gyda'r cylch gwaith o sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu cyflawni'n integredig, drwy gydweithio i sicrhau bod pob un o'r tri amcan llesiant yn cael eu cyflawni'n gytbwys. Bydd arweinydd amcanion llesiant y Tîm Gweithredol yn defnyddio’r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol i fframio a llywio eu trafodaethau yn y Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y newid rydym am ei weld erbyn 2030.

## Defnyddio'r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol

Bydd y Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC yn craffu ar berfformiad yn erbyn y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol mewn trafodaethau strategol am yr amcanion llesiant drwy gydol y flwyddyn. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu fframio gan y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol perthnasol a'u llywio gan naratif cefnogol.

Bydd y prif ffocws ar gyflawniad CNC, gan nodi'r camau perthnasol i'w cymryd a metrigau perfformiad gweithredol cysylltiedig. Mae Tabl 1 yn dangos y meysydd ffocws o dan bob amcan llesiant a sut y maent yn mapio i'r dangosyddion strategol *(mae Atodiad 2 yn dangos mapio llawn yr holl gamau i'w cymryd).*

Bydd y naratif yn pwyso a mesur y cyd-destun allanol ehangach hefyd, gan gynnwys:

- ***Llywodraeth***. Datblygwyd y cynllun corfforaethol i fodloni'r gofynion o dan lythyr cylch gwaith presennol Tymor y Llywodraeth sydd wedi'u hintegreiddio i'r camau i'w cymryd. Bydd gwaith craffu’n ystyried cynnydd ar newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol allweddol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y dangosyddion strategol
- ***Partneriaeth a'r gymdeithas ehangach.*** Bydd dealltwriaeth yn deillio o'n gwaith partneriaeth, yn ogystal â'n gwaith ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflwyno cynlluniau llesiant. Bydd gwaith craffu’n cynnwys adborth gan bartneriaid allweddol, mecanweithiau cyllido newydd a chynnydd ar ffyrdd byrddau gwasanaethau cyhoeddus o weithio
- ***Rhyngwladol/byd-eang***. Datblygwyd y cynllun corfforaethol yn unol â dulliau byd-eang presennol, a adlewyrchir yn y COPs Hinsawdd a Bioamrywiaeth. Bydd gwaith craffu’n cynnwys sganio'r gorwel am ddulliau sy'n dod i'r amlwg o'r Cenhedloedd Unedig a'r UE ac asesiad o'r goblygiadau i'n gwaith yng Nghymru.

DRAFT

## *Tabl 1: Amcanion Llesiant, Meysydd Ffocws wedi'u mapio i'r Dangosyddion Strategol*

| | DS1: Ecosystemau | DS2: Cynefinoedd | DS3: Gwasanaethau cyhoeddus | DS4: Llygredd - tir a dŵr | DS5: Llygredd - aer | DS6: Atafaelu a nwyon tŷ gwydr | DS7: Mannau gwyrdd a glas | DS8: Byw | DS9: Dulliau partneriaeth | DS10: Poblogaeth sy’ n gweithredu | DS11: Sefydliadau sy'n gweithredu | DS12: Cydweithwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byd natur wrthi’n gwella** | | | | | | | | | | | | |
| Byddwn ni'n gwarchod natur drwy... | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Byddwn yn adfer natur drwy... | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn ni'n sicrhau bod natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau, drwy... | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn cysylltu natur a phobl drwy... | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn ni'n sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur drwy... | ✓ | ✓ | | | | | | | | | ✓ | ✓ |
| **Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd** | | | | | | | | | | | | |
| Byddwn yn cynyddu graddfa’r gwaith a wneir i gyflawni atebion sy’n seiliedig ar natur drwy... | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn addasu i risgiau ac effeithiau’r newid yn yr hinsawdd drwy... | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon drwy... | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Byddwn yn galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu’n barhaus ar y newid yn yr hinsawdd drwy... | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus sy’n garbon-bositif drwy... | | | | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| **Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf** | | | | | | | | | | | | |
| Byddwn yn defnyddio ein dulliau rheoleiddio yn effeithiol drwy... | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn ymateb i ddigwyddiadau, yn seiliedig ar risg, drwy... | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn hybu effeithlonrwydd adnoddau a defnyddio deunyddiau amgen drwy... | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | |
| Byddwn yn galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus i atal llygredd drwy... | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Byddwn yn  enghraifft dda o sefydliad 'dim llygredd a dim gwastraff' drwy... | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ |

## Cynllunio Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Strategol

Bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol, ynghyd â'n cynllun busnes blynyddol, yn helpu i nodi blaenoriaethau ymgysylltu strategol ac eiriolaeth blynyddol y Prif Swyddog Gweithredol, y Cadeirydd a Bwrdd CNC.

Er mwyn cefnogi ein bwriad i feithrin dull 'Tîm Cymru' o ymdrin â'r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol, bydd adran y Swyddfa Strategaeth Gorfforaethol a Rheoli Prosiectau yn ymgysylltu â thimau cynllunio corfforaethol ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Byddwn yn ymgysylltu hefyd â chyrff amgylcheddol ledled y DU drwy weddill 2023/24 hyd at drydydd chwarter 2024/25 i ddysgu gan eraill.

Mae cynllun ymgysylltu penodol yn cael ei ddatblygu, gan adeiladu ar fapio presennol rhanddeiliaid. Bydd hyn yn nodi cynulleidfaoedd ac unigolion targed i archwilio cyfleoedd i fireinio'r datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol gan ystyried eu dealltwriaeth a'u data sefydliadol.

# Adran 5: Disgrifiad o bob Dangosydd Strategol

Er mwyn olrhain cynnydd o ran cyflawni'r uchelgais a bennwyd yn y datganiadau effaith ac i dynnu sylw at ble mae gan CNC y dylanwad mwyaf, rydym wedi dewis y deuddeg dangosydd strategol canlynol:

### *Dangosydd Strategol 1: Cynyddu cyfran yr ecosystemau sy'n cael eu diffinio fel rhai gwydn*

Mae CNC wedi datblygu (gyda phartneriaid academaidd) fframwaith gweithio ar gyfer mesur gwydnwch ecosystemau, y cyfeirir ato fel DECC neu DECCA[1]. Prif nodweddion gwydnwch ecosystemau yw: Amrywiaeth (gan gynnwys bioamrywiaeth, ond hefyd amrywiaeth genetig, geoamrywiaeth, amrywiaeth cynefinoedd ac amrywiaeth tirlun), Ehangder (cynefinoedd neu rywogaethau), Cyflwr a Chysylltedd.

Rydym yn mesur hyn yn uniongyrchol, ac yn cyhoeddi ein methodoleg a'n rhesymu, drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Mae SoNaRR yn trin y mathau eang o gynefinoedd a'u cydrannau fel ein hecosystemau, sef:

- Ymylon arfordirol
- Tir fferm caeedig
- Dŵr croyw
- Morol
- Mynyddoedd, rhostir a rhostiroedd
- Glaswelltiroedd lled-naturiol
- Trefol

Mae gweithgareddau megis ail-wlychu mawndir, annog arferion amaethyddol sy'n annog bioamrywiaeth ac iechyd pridd, a chreu coetir gyda'r nod o wella cysylltedd a hwyluso rheolaeth yn arbennig o bwysig yma. Mae'n bwysig nodi bod Trefol yn gynefin yr un mor ddilys; bydd gweithgareddau sy'n cyfrannu at wydnwch trefol, megis coed stryd sy'n darparu cynefin a lliniaru gwresogi trefol, yn cyfrannu at y dangosydd hwn.

***Gwaelodlin**:*

*Asesiadau gwydnwch SoNaRR, SoNaRR2020 (asesiadau crynodol o ystod eang o ddata ategol). Bydd diweddariad yn cael ei gyhoeddi yn 2025.*

***Metrig allweddol**:*

*Asesiad gwydnwch ecosystemau amcan SoNaRR 2; astudiaethau achos darluniadol (e.e. canlyniadau cynnar SFS/NPAP/NaCE ac ati)*

***Cymhlethdod**:*

*Uchel (ond mae'r rhan fwyaf o ymdrech eisoes wedi'i gwneud ar gyfer SoNaRR)*

***Yr adnoddau sydd eu hangen**:*

*Isel: mae gwaith yn cael ei wneud eisoes*

DRAFT

[1] Sanderson Bellamy, A., J. Latham, S. Spode, S. Ayling, R. Thomas, a K. Lindenbaum. 2021. A framework for ecosystem resilience in policy and practice: DECCA. Ecology and Society 26(4):31.

**Rôl CNC:**
Yn uniongyrchol ar dir rydym yn ei reoli a gweithgareddau perthnasol rydym yn eu rheoleiddio; ar gyfer ardaloedd eraill, gweithio mewn partneriaeth ag eraill gan gynnwys cyrff anllywodraethol, cynllunwyr awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a'r Parciau Cenedlaethol.

**Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol**
*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>○ *Cysylltu byd natur a phobl*<br>○ *Sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur* | ○ *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>○ *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>○ *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon* | ○ *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>○ *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>○ *Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon, a defnyddio deunyddiau amgen*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

## *Dangosydd Strategol 2: Cynyddu cyfradd adfer cynefinoedd*

Mae'r Dangosydd Strategol hwn yn canolbwyntio ar olrhain y gwelliant mewn swyddogaeth ecosystem sy'n deillio o adfer cynefinoedd (ar dir, mewn amgylcheddau dŵr croyw a morol) y gallwn ddylanwadu ar eu cyflwr drwy ddefnyddio ein dulliau rheoleiddio, cytundebau rheoli tir, grantiau a gwaith partneriaeth ehangach. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y tir rydym yn ei reoli hefyd. Bydd gweithgareddau sydd â'r nod o wella cyflwr ecosystemau gwarchodedig (megis cytundebau rheoli tir) a'u hannog i gynyddu eu maint megis Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn arbennig o berthnasol yma. Dewiswyd 'Cyfradd' gan fod rhaid cyflymu cyflymder gweithgarwch adfer cynefinoedd ynghyd â maint y cynefin sydd o dan reolaeth briodol.

***Gwaelodlin***:

***Metrig allweddol:***

*Ailwampio ychydig ar y metrig safleoedd gwarchodedig presennol. Rhaid cydnabod gwendid o ran nad yw gweithgarwch monitro'n ddigonol ar hyn o bryd i asesu cyflwr/rheolaeth gadarnhaol ar safleoedd gwarchodedig presennol. Gwerthuso canlyniadau'r prosiect (e.e. LIFE, Natur am Byth ac ati).*

***Cymhlethdod***:

*Canolig*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Canolig: anghenion perfformiad a gwerthuso, i gael eu halinio'n wahanol*

DRAFT

### Rôl CNC:

Yn uniongyrchol ar dir rydym yn ei reoli, gan weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, cyrff anllywodraethol ac awdurdodau cyhoeddus mewn mannau eraill.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| o *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>o *Byd natur yn cael ei adfer*<br>o *Sicrhau bod Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>o *Cysylltu byd natur a phobl*<br>o *Sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur* | o *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>o *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>o *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon* | o *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>o *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg* |

## *Dangosydd Strategol 3: Cynyddu integreiddio gweithgareddau sy'n cefnogi adferiad natur yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru*

***(DATBLYGIAD)***

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'. Yn ogystal â'n rolau sefydledig o ran darparu tystiolaeth, cyngor a chymorth gweithredu, bydd CNC yn defnyddio ei rôl eiriolaeth gynyddol i annog a chefnogi cyrff fel awdurdodau lleol a Byrddau'r GIG i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth sy'n deillio o'u gweithgareddau, drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar lefelau prosiect. Gellid ystyried annog adroddiadau mwy cynhwysfawr o gamau gweithredu A6 gan awdurdodau cyhoeddus fel ffordd o wella atebolrwydd.

Gall awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth drwy wneud newidiadau syml i'r ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau a'u gweithgareddau; er enghraifft, gellir integreiddio seilwaith gwyrdd a seilwaith ynni adnewyddadwy cynaliadwy i bron pob agwedd ar ystad awdurdod cyhoeddus. Yn strategol, mae'n hanfodol bod awdurdodau'n integreiddio adferiad natur i'w prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar bob lefel, gan gynnwys eu

***Gwaelodlin***:

*adroddiadau A6 presennol*

***Metrig allweddol:***

*Metrig allweddol: Adroddiadau Adran 6 cyrff cyhoeddus. Mae'r adroddiadau'n anghyson ar hyn o bryd, ac nid yw ystadegau wedi'u cyhoeddi'n dda nac yn glir. Gallai metrig fod yn gyfradd llwyddiant adrodd ar ddyletswyddau A6, ond mae hyn yn adlewyrchiad o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd. Gellid dilyn llwybr mwy strwythuredig a chynnil drwy gamau gweithredu a gynlluniwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Awdurdod Cyhoeddus megis Cynlluniau Llesiant a Siarteri Natur, gan ddefnyddio 7 maes newid corfforaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, taith tuag at Gymru gydnerth, a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Dylai fod yn bosibl dangos y cynnydd mewn llythrennedd natur yn ogystal â*

gweithgareddau caffael. Gall sefydliadau megis Byrddau'r GIG fod yn arbennig o effeithiol oherwydd faint o dir trefol y maent yn ei reoli. Mae tystiolaeth bod integreiddio mannau gwyrdd o ansawdd uchel i safleoedd ysbytai yn cael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau cleifion yn ogystal â llesiant staff. Gall dylunio a phlannu ystyriol sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth, ansawdd aer lleol a draeniad safleoedd.

*llythrennedd hinsawdd a chefnforol drwy ysgrifennu a chyhoeddi strategaethau a chynlluniau corfforaethol, blynyddol a sector-benodol.*

***Cymhlethdod**:*

*Canolig*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Canolig: yn cyd-fynd â phroffil rôl presennol cydweithiwr*

## Rôl CNC:

Eiriolaeth a chyngor i Lywodraeth Cymru; eiriolaeth, cyngor a phartneriaeth gydag awdurdodau cyhoeddus eraill Cymru.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau* | ○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd* | ○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

## *Dangosydd Strategol 4: Lleihau cyfradd llygredd ar dir a llygredd sy'n mynd i mewn i gyrff dŵr*

Mae llygredd ar dir, sy'n niweidiol ynddo'i hun, yn arwain at halogi mewn cyrff dŵr cyfagos ac, yn y pen draw, yn ein hamgylchedd morol. Drwy gymryd dull dalgylch cyfan sy'n ceisio ymdrin â materion llygredd yn y tarddle, p'un a yw'n cael ei achosi gan ddigwyddiad yn y tarddle neu gan fewnbynnau gwasgaredig, gallwn helpu i atal difrod ehangach. Fel yn DS 2, dewiswyd 'cyfradd' i adlewyrchu cyfanswm y llygredd a thros faint o amser y mae'n digwydd; dylem ymrwymo i gyflymu cyflymder y gostyngiad.

***Gwaelodlin**:*

***Metrig allweddol:***

*Ar gyfer dŵr, nid yw statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn debygol o fod yn effeithiol oherwydd graddfa'r oedi, ond byddai elfennau'r Fframwaith, fel ar ddyddiad y dadansoddiad diweddaraf, ynghyd â data digwyddiadau ac astudiaethau achos gan WIRS, yn effeithiol. Mae'r elfen llygredd tir ar ddod.*

***Cymhlethdod**:*

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel ar gyfer dŵr, canolig ar gyfer tir*

DRAFT

**Rôl CNC:**

Dylanwad uniongyrchol drwy reoleiddio, cydymffurfio ac atal llygredd

**Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol**

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| o *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>o *Byd natur yn cael ei adfer*<br>o *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau* | o *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>o *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>o *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon* | o *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>o *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>o *Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon, a defnyddio deunyddiau amgen*<br>o *Sefydliad di-lygredd a diwastraff enghreifftiol* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 5: Lleihau cyfradd llygredd i'r aer o ffynonellau diwydiannol ac anniwydiannol*

Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd[2]. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n amcangyfrif[3] bod baich llygredd aer hirdymor yng Nghymru yn cyfateb i 1,000 i 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae CNC yn gwneud cyfraniad allweddol at reoleiddio ynghyd ag awdurdodau lleol. Mae gweithgareddau yn y maes hwn yn debygol o gynyddu unwaith y bydd Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (neu'r Ddeddf Aer Glân) yn dod yn gyfraith.

Gall problemau ansawdd aer, yn enwedig drwy ddyddodiad nitrogen, arwain at ddifrod i ecosystemau hefyd.

***Gwaelodlin***:

***Metrig allweddol:***

*Mae Safonau/Amcanion Ansawdd Aer presennol wedi'u sefydlu ar gyfer diogelu iechyd (e.e. PM2.5, PM10, NO2, SO2 ac ati) a Lefelau/Llwythi Critigol a sefydlwyd ar gyfer safleoedd gwarchodedig (h.y. NH3, dyddodiad N). Mae Llywodraeth Cymru a'i Phanel Cynghori ar Aer Glân yn gweithio tuag at osod targedau llygryddion newydd. Bydd y Tîm Ansawdd Aer a Sŵn yn datblygu metrig gan ddefnyddio'r amcanion a'r gyfundrefn fonitro bresennol.*

***Cymhlethdod***:

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel ychwanegol*

---

[2] *Canllawiau ansawdd aer byd-eang WHO: deunydd gronynnol (PM2.5 a PM10), osôn, nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid a charbon monocsid,* 2021, Sefydliad Iechyd y Byd

[3] 'Llygredd aer ac iechyd yng Nghymru', 2020, Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Rôl CNC:

Rheoleiddio a gweithredu uniongyrchol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, yn dibynnu ar y mater.

**Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol**

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| Byd natur wrthi'n gwella | Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd | Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau* | ○ *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>○ *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon* | ○ *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>○ *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>○ *Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon, a defnyddio deunyddiau amgen* |

## *Dangosydd Strategol 6: Lleihau cyfradd allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu cyfradd atafaelu cynaliadwy*

Gellir cyflawni gostyngiad mewn allyriadau drwy gyngor, arweiniad, gweithio mewn partneriaeth ac eiriolaeth yn bennaf, yn ogystal ag arwain drwy esiampl wrth leihau ein hallyriadau ein hunain fel sefydliad. Gallwn ddylanwadu ar gyfraddau atafaelu drwy bartneriaethau â rheolwyr tir a thrwy ein hymyriadau ein hunain sy'n atafaelu carbon - e.e. drwy greu ac ailstocio coetiroedd, ail-wlychu'r mawndir ac adfer gwelyau morwellt. Carbon deuocsid yw'r nwy tŷ gwydr mwyaf dylanwadol, ond dylem weithio hefyd i leihau allyriadau methan o ddiwydiant, safleoedd tirlenwi ac amaethyddiaeth, ocsidau nitraidd o gerbydau a diwydiant, a HFCs o weithgareddau diwydiannol a domestig.

***Gwaelodlin**:*

***Metrig allweddol:***

*Ystadegau Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr y DU fel y'u defnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu hadroddiadau Cymreig; data mewnol ar adfywio ac ailstocio coetir yn naturiol, canlyniadau NPAP ac adfer morwellt.*

***Cymhlethdod**:*

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel*

DRAFT

### Rôl CNC:

Cyngor, arweiniad, gweithio mewn partneriaeth, eiriolaeth ac arwain drwy esiampl ar allyriadau. Cyfraniad uniongyrchol drwy ailstocio ac adfywio i atafaelu

**Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol**

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| **Byd natur wrthi'n gwella** | **Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd** | **Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf** |
|---|---|---|
| o *Byd natur yn cael ei adfer*<br>o *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau* | o *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>o *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>o *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon*<br>o *Sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus carbon-bositif* | o *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>o *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>o *Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon, a defnyddio deunyddiau amgen*<br>o *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 7: Cynyddu cyfran y boblogaeth sydd â mynediad at fannau gwyrdd neu las o ansawdd uchel, ac sy'n eu defnyddio'n gynaliadwy (DATBLYGIAD)*

Amcangyfrifir nad oes gan 415,000 o bobl yng Nghymru, neu 13% o'r boblogaeth, fynediad at fannau gwyrdd o fewn deng munud i'w cartrefi ar droed[4]. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd trefol yn y De. Mae cydweithio ag awdurdodau lleol (yn enwedig cynllunwyr) i ymwreiddio seilwaith gwyrdd gyda manteision lluosog (SUDS, hamdden, creu cynefin) yn allweddol i unioni'r materion hyn. Dylem gydweithio â chynllunwyr ac awdurdodau perthnasol eraill i wneud y defnydd gorau o'r mannau hyn, gan sicrhau hefyd bod safleoedd sensitif

***Gwaelodlin:***

***Metrig allweddol:***
*Set Ddata Seilwaith Gwyrdd Cymru ynghyd â'r data ffiniau ar gyfer safleoedd sy'n ennill Baner Werdd neu Wobr Gymunedol Baner Werdd (a gesglir yn flynyddol gan Cadwch Gymru'n Daclus) i asesu mynediad y boblogaeth at fannau gwyrdd naturiol yn unol â'r safonau a nodir ym Mhecyn Cymorth Mannau Gwyrdd CNC. Data trydydd parti.*

*Gall data o'n harolygon cymdeithasol cenedlaethol ddweud y canlynol wrthym:*

- *Canfyddiadau pobl o sut y dylai mannau gwyrdd fod yn eu barn nhw, a'u canfyddiadau o sut lefydd yw eu mannau lleol mewn gwirionedd yn ogystal ag ansawdd canfyddedig y gofod lleol hwnnw*
- *Pa mor hir mae'n ei gymryd i bobl gerdded i'w man gwyrdd agosaf (ac a ydynt yn gwneud hynny o gwbl)*
- *pa fath(au) o fannau gwyrdd sydd gan bobl o fewn 10 munud mewn car o'u cartref a pha mor fodlon yw pobl a'u hansawdd*

[4] Green Space Index | Fields in Trust. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad daearyddol - mae dadansoddiad arall sydd ar gael yn seiliedig ar ddata'r arolwg.

| | |
|---|---|
| neu safleoedd hynod boblogaidd yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy ac yn gyfrifol. Mae mannau glas (ardaloedd dŵr hygyrch, gan gynnwys afonydd, llynnoedd a'r môr) yn darparu buddion pwysig hefyd, yn enwedig i les meddyliol[5], a dylem hyrwyddo eu defnydd cynaliadwy ar gyfer hamdden. | - *agweddau pobl at fannau gwyrdd a'u hymddygiad ynddynt (mathau cyfrifol o ymddygiad fel y'u diffinnir gan y Cod Cefn Gwlad)*<br>- *pa mor aml mae pobl yn defnyddio'r awyr agored ar gyfer hamdden (yn ei ystyr ehangaf), y rhwystrau i wneud hynny'n amlach, y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw a'r galw cudd am weithgareddau.*<br>*O fewn data'r arolwg, mae mannau glas yn cael eu trin fel elfen o fannau gwyrdd.*<br>***Cymhlethdod**:*<br>*Canolig*<br>***Yr adnoddau sydd eu hangen:***<br>*Isel ychwanegol* |

## Rôl CNC:

Mae gennym gyfraniad uniongyrchol drwy'r tir rydym yn ei reoli, fodd bynnag ein prif rôl yw cynghori a dylanwadu ar y system gynllunio drwy Ddatganiadau Ardal, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn uniongyrchol gydag awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>○ *Cysylltu pobl a natur* | ○ *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>○ *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd* | ○ *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

[5] *The social benefits of Blue Space: A Systematic Review* (2020) Asiantaeth yr Amgylchedd



DRAFT

## *Dangosydd Strategol 8*: *Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn lleoedd a fydd yn parhau i gefnogi a chyfrannu at eu hiechyd a'u lles mewn hinsawdd sy'n newid* ***(DATBLYGIAD)***

Mae hwn yn ddangosydd arbennig o 'fawr', sy'n ymdrin ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac ôl-osod mewn seilwaith, yn enwedig mannau trefol ac amdrefol presennol (gan gynnwys y rhan fwyaf o'n gweithgarwch sy'n gysylltiedig â llifogydd). Mae ein rôl yma yn bennaf yn ein rhyngweithiadau ag awdurdodau cynllunio a phartneriaid eraill. Dylai hwn fod yn ddangosydd craidd ar gyfer creu seilwaith gwyrdd trefol ar gyfer manteision lluosog, mesurau SUDS, seilwaith llifogydd 'llwyd' a seilwaith rheoli llifogydd naturiol wedi'i leoli'n uwch i fyny mewn dalgylchoedd. Bydd rheoli rhannau o Ystad Goed Llywodraeth Cymru sy'n ffinio â phentrefi a threfi yn cyfrannu yma hefyd, yn enwedig o ran y risg o danau gwyllt, rheoli tomenni glo ac ymgysylltu â chymunedau. Bydd angen i'r dangosydd hwn adlewyrchu pontio teg, cyfiawnder cymdeithasol a'r angen i'r cymunedau mwyaf difreintiedig gael eu cefnogi fwyaf.

***Gwaelodlin****:*

***Metrig allweddol:***

*Bydd angen gwaith datblygu ar y dangosydd hwn - yn bennaf o ran cytuno ar ddull integredig a naratif yn hytrach na datblygiad technegol neu gasglu data. Bydd ffynonellau data'n cynnwys:*

- *Ein mapiau llifogydd a'n data ein hunain o'n rhaglenni cyfalaf*
- *Data gan Fyrddau Cymeradwyo SUDS*
- *Data systemau cynllunio ac astudiaethau achos ar gyfer UGI*
- *Data arolygon cymdeithasol ar berygl llifogydd canfyddedig a llesiant*
- *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru*

***Cymhlethdod****:*

*Uchel. Prin yw'r data ar addasu*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Uchel - amser datblygu gan sawl tîm (e.e. polisi, DPAS, Pobl a Lleoedd, Llifogydd). Fodd bynnag, dylai'r broses lywio cynllunio busnes a monitro perfformiad gweithredol ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn, felly mae ganddi werth ychwanegol*

### Rôl CNC:

Rhoi cyngor ac arweiniad i awdurdodau cynllunio a phartneriaid eraill yn bennaf, ond hefyd yn uniongyrchol drwy ein gweithgareddau rhybuddio am lifogydd ac ymateb i lifogydd, rheoli tir a rheoli/atal llygredd.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| o *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>o *Byd natur yn cael ei adfer*<br>o *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>o *Cysylltu pobl a natur* | o *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>o *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>o *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon*<br>o *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd* | o *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>o *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>o *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 9: Cynyddu effaith dulliau partneriaeth sy'n sicrhau manteision lluosog ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd* **(DATBLYGIAD)**

Nid ydym mewn sefyllfa i gyflawni popeth sydd angen ei wneud ac, mewn llawer o achosion, nid ni fyddai'r bobl orau i wneud hynny. Mae angen i ni ddatblygu dulliau partneriaeth effeithiol yn gyflym ar sawl graddfa, hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithio a chydweithredu ac annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau lle bo hynny'n briodol. Bydd hwn yn fesur ansoddol yn bennaf.

***Gwaelodlin****:*

***Metrig allweddol:***

- *Data o'n rhaglen grantiau a'r dull cyllid partneriaeth arfaethedig (gan gynnwys astudiaethau achos)*
- *Data ac astudiaethau achos ar effeithiau Datganiadau Ardal*
- *Data ac astudiaethau achos ar effeithiau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*
- *Data, astudiaethau achos, tystebau effaith ac ati o welliannau sy'n deillio o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth strategol*
- *Data ansoddol sy'n deillio o Natur a Ni a'r Cynulliadau Dinasyddion*

***Cymhlethdod****:*

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel*

### Rôl CNC:

Cyngor, arweiniad, partneriaeth a dyfarnu grantiau.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| o *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>o *Byd natur yn cael ei adfer*<br>o *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>o *Cysylltu pobl a natur* | o *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>o *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>o *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon*<br>o *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd*<br>o *Sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus carbon-bositif* | o *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>o *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>o *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 10: Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n gweithredu i liniaru ac addasu i'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd*

Mae ein prif ddulliau’n debygol o fod drwy ein hymgysylltiad â phartneriaid a rhanddeiliaid, ein rôl eiriolaeth gynyddol a thrwy ein gwaith ar addysg a dysgu gydol oes. Gallwn fonitro camau gweithredu o blaid yr amgylchedd drwy ein harolygon cymdeithasol (Arolwg Pobl a Natur (PaNS) ac Arolwg Cenedlaethol Cymru). Gallwn annog gweithgareddau sy'n cynyddu gallu unigolion i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, megis deall perygl llifogydd lleol, gwell inswleiddiad mewn cartrefi a phontio i ynni adnewyddadwy ar gyfer gwresogi. Gallwn gydweithio â phartneriaid hefyd i annog newidiadau llai o ran ymddygiad gydag effeithiau cronnus mwy.

***Gwaelodlin**:*

***Metrig allweddol:***

*Data arolwg cymdeithasol ar:*

- *Dealltwriaeth pobl o berygl llifogydd i'w heiddo. Gellid defnyddio hyn i ddeall gwybodaeth am berygl llifogydd o gymharu â pherygl llifogydd gwirioneddol*
- *Camau a gymerwyd i baratoi ar gyfer llifogydd (o'r rhai a oedd yn gwybod eu bod mewn perygl)*
- *Camau gweithredu o blaid yr amgylchedd a gymerwyd yn gyffredinol (Arolwg Cenedlaethol)*
- *Agweddau, ymddygiad a thueddiad o blaid yr amgylchedd i newid ymddygiadau (PaNS Wales)*

***Cymhlethdod**:*

*Canolig*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel - mae'r dadansoddiad hwn yn digwydd eisoes*

### Rôl CNC:

Cyngor, arweiniad ac eiriolaeth.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau’n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i’r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a’i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>○ *Cysylltu pobl a natur* | ○ *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>○ *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd* | ○ *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>○ *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i’r eithaf* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 11: Cynyddu cyfran y sefydliadau a'r busnesau sy'n gweithredu i liniaru ac addasu i'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd* ***(DATBLYGIAD)***

Bydd ein dulliau yma yn debyg i DS 10, gan ymgysylltu â BGCau a grwpiau busnes i annog gwell canlyniadau amgylcheddol ac ystyriaeth ddyfnach o faterion amgylcheddol mewn llywodraethu sector preifat. Bydd ein rôl eiriolaeth sy'n datblygu yn gwneud cyfraniad hefyd. Unwaith eto, mae hwn yn debygol o fod yn ddangosydd ansoddol.

***Gwaelodlin:***

***Metrig allweddol:***

- *Astudiaethau achos gan BGCau*
- *Astudiaethau achos gan bartneriaethau â diwydiant*

***Cymhlethdod:***

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

### Rôl CNC:

Cyngor, arweiniad ac eiriolaeth.

### Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Byd natur yn cael ei ddiogelu*<br>○ *Byd natur yn cael ei adfer*<br>○ *Sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau*<br>○ *Cysylltu pobl a natur*<br>○ *Sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur* | ○ *Cynyddu darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur*<br>○ *Addasu i risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd*<br>○ *Cyfrannu at leihau allyriadau carbon*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd camau parhaus ar y newid yn yr hinsawdd* | ○ *Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio mewn modd effeithiol*<br>○ *Ymateb i ddigwyddiadau, a hynny'n seiliedig ar risg*<br>○ *Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon, a defnyddio deunyddiau amgen*<br>○ *Galluogi pobl, cymunedau a busnesau i weithredu'n barhaus i leihau llygredd i'r eithaf* |

DRAFT

## *Dangosydd Strategol 12: Cynyddu cyfran cydweithwyr CNC sy'n teimlo eu bod yn ymgysylltiedig, ac yn cael eu galluogi a'u grymuso*

Mae ein cydweithwyr yn hanfodol i sicrhau llwyddiant a byddwn yn parhau i wella dealltwriaeth a gweithredu i wella ymgysylltiad, galluogi a grymuso fel bod cydweithwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol. Byddwn yn parhau i gynnal arolygon staff drwy Ein Llais i ddeall sut mae gweithredu mewnol yn effeithio ar gydweithwyr.

***Gwaelodlin:***

***Metrig allweddol:***

*- Ein Llais*

***Cymhlethdod:***

*Isel*

***Yr adnoddau sydd eu hangen:***

*Isel*

### Rôl CNC:

Cyngor, arweiniad ac eiriolaeth.

**Meysydd Ffocws Amcanion Llesiant sy'n cyd-fynd â'r dangosydd strategol**

*Gweler Atodiad 3 (camau CNC i'w mapio) am restr lawn o gamau i'w cymryd yn unol â'r dangosydd strategol hwn*

| ***Byd natur wrthi'n gwella*** | ***Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd*** | ***Llygredd yn cael ei atal i'r eithaf*** |
|---|---|---|
| ○ *Sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur* | ○ *Sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus carbon-bositif* | ○ *Sefydliad di-lygredd a di-wastraff enghreifftiol* |

DRAFT